

Cyfarfod Pwyllgor Eiddo
Nos Fawrth 28ain o Ionawr 2020,
yn Ystafell Glaslyn , Y Ganolfan , Porthmadog am 7:00 yh.

Presennol : Cynghorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Aled Griffith, Selwyn Griffiths, Nia Jeffreys, Ian Jones, Glenda Burke (Clerc).

Ymddiheuriadau : Cynghorwyr : Jason Humphreys, Llywelyn Rhys.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Gwilym Jones.

Llwybrau

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc.

Adroddodd y Cyng. Ian Jones ei fod wedi derbyn cwyn am Risiau Mawr ym Mhen Cei. Mae'n debyg fod tŷ wedi cael gwaith wedi ei wneud arno a bod cerrig mân wedi eu gadael ar y grisiau yn ogystal a gwydra wedi malu. Nodwyd fod y Cyngor Tref wedi ceisio canfod perchennog y grisiau yma ar hyd y blynyddoedd ond ofer fu'r ymdrechion. Cynigiodd y Cyng. Ian Jones y dylid ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan ofyn iddyn nhw glirio'r grisiau gan nod ei fod yn beryg .Eiliwyd hyn gan y Cyng. Selwyn Griffiths.

Penderfynwyd: ysgrifennu yn ôl y cynnig.

Cae Chwarae Bodawen

Adroddodd y Cyng. Nia Jeffreys ei bod wedi derbyn cwyn gan un o drigolion Maes Gerddi oedd yn byw ar ffin y cae chwarae. Roedd yn adrodd fod yna blant bach ar feiciau quad yn defnyddio'r cae chwarae ac yn gwneud difrod i'r glaswellt. Roedd yn cwyno am y sŵn a'r llygredd amgylcheddol ond hefyd yn pryderu am iechyd a diogelwch y plant bach. Trafodwyd eu bod yn mynd i mewn trwy'r brif giât gan fod y llall ar glo. Mae'r Cyng. Nia Jeffreys wedi cysylltu efo Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd ac wedi siarad efo PCSO Mark. Roedd ganddo syniad pwy fyddai yn mynd yna ac am gael gair bach tawel.

Nododd y Clerc ei bod wedi bod yn rhoi arwyddion wedi eu lamineiddio yna ond nad ydynt yn para. Cynigiodd y Cyng. Selwyn Griffiths roi hawl i'r Clerc i drefnu arwyddion / baner fwy proffesiynol a parhaol ar gyfer y ddwy giât. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Nia Jeffreys.

Penderfynwyd: gweithredu yn ôl y cynnig.

Bryn Coffa

Adroddodd y Clerc fod y safle yn daclus a'r plethdorchau wedi eu clirio o'r safle. Gan nad oedd y Clerc wedi bod yn dda diolchodd i'r Cyng. Nia Jeffreys a'i theulu oedd wedi mynd yna i glirio'r plethdorchau. Roedd hefyd wedi trefnu clirio Bryn Coffa gyda grŵp o wirfoddolwyr lleol. Adroddodd eu bod wedi casglu 3 sach o sbwriel o Fryn Coffa. Roed dyn braf adrodd fod y gwifrau yn gweithio yn dda i ddal y plethdorchau yn eu lle.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth gan ddiolch i'r Cyng. Nia Jeffreys , ei theulu a'r gwirfoddolwyr am eu cymorth a'u gwaith.

Cae Pawb

Nodwyd fod popeth i weld yn rhedeg yn esmwyth iawn gyda phwyllgor rhandiroedd Cae Pawb yn gweithio yn ddiwyd. Nid oes dim problemau wedi eu hadrodd a nododd y Clerc y bydd 1 plot ar gael yn y flwyddyn newydd ar hyn o bryd a dim ond un enw ar y rhestr aros .

Bydd y Clerc yn ceisio hybu Cae Pawb yn yr Wylan er mwyn sicrhau fod pobl leol yn cael cyfle i gael plot. Awgrymwyd gofyn i Elfyn Lewis , un o denantiaid Cae Pawb am neud ryw erthygl fach ar gyfer y Wylan i godi ymwybyddiaeth.

Penderfynwyd: deryn y wybodaeth ac ymateb yn ôl y cynnig.

Llochesi Bws

Roedd y Cyng. Aled Griffith yn falch o fod wedi cadarnhau trwy'r Cyng. Alwyn Gruffydd y bydd ymgynghori am ddyluniad llochesi bws Tremadog cyn eu hadeiladu.

Mae cadarnhad hefyd wedi ei dderbyn y bydd lloches bws y Cyngor Tref ger yr orsaf drên yn cael ei uwchraddio wedi ei ariannu fel rhan o brosiect llochesi bws ar wasanaeth y T2.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth.

Cerflun Mr Maddocks

Penderfynwyd : nad oedd dim problemau wedi eu hadrodd.